

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn

Datganiad Ysgrifenedig gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr Lleol, aelodau o Gyngorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys materion cynllunio, ac yn cyfrannau at y gwaith o baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

Sylw 944

1. Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel ?

Polisi ADN 2 – Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall.

2. Pa brofion cadernid sydd ddim yn cael eu cwrdd ?

Credir fod y polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu allan i ffiniau datblygu.

Mae'r polisi yn berthnasol i ystod o ddatblygiadau ynni adnewyddol heblaw tyrbeini gwynt – solar, biomass, pypiau gwres daear, trydan dŵr a phwer a gwres cyfunedig. Mae gan rai o'r datblygiadau hyn, a solar a trydan dŵr yn benodol, y potensial i gael ardrawiad amgylcheddol sylweddol. Dylai ceisiadau o'r fath gael eu hasesu yn fanwl a dylai'r polisi roi arweiniad clir i ddatblygwyr o ran beth fyddai yn dderbyniol.

3. Pam mae'n methu ?

Nid yw'r polisi yn cynnwys meini prawf clir a chadarn o ran pwyso a mesur datblygiadau ynni adnewyddadwy arall – yn enwedig oddi allan i ffiniau datblygu. Oherwydd hyn nid yw yn rhoi arweiniad i ddatblygwyr be fyddai yn addas/ anaddas o ran y technegau adnewyddadwy dan sylw.

Nid yw'r polisi yn cyfeirio at ardaloedd dynodedig, yn enwedig rhai statudol fel yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Mae hyn yn ddiffyg sylweddol, yn arbennig oherwydd nad oes polisi penodol ar gyfer cynnal a gwarchod yr AHNE wedi ei gynnwys yn y Cynllun.

Mae'r AHNE yn ardal ddaearyddol wedi ei dynodi yn statudol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, 2016) mai prif reswm dynodi ardal fel AHNE yw cynnal a gwella eu harddwch naturiol. Nodir fod yr AHNE o'r un statws â'r Parciau Cenedlaethol o ran harddwch gweledol ac y dylent gael y warchodaeth uchaf rhag datblygiadau anaddas.

Prif sail dynodi rhan o Llyn yn AHNE oedd yr arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd. Mae oddeutu chwarter y penrhyn, cyfanswm o 15,500 hectar, yn yr ardal ddynodedig. Mae'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys Foel Gron a Garn Fadryn.

Yn eu hanfod mae safleoedd solar dros arwynebedd eithaf sylweddol o dir. Gallai'r datblygiadau hyn gael effaith sylweddol ar dirlun yr ardal, gan gynnwys yr AHNE. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio yr angen i roi gwarchodaeth uchel i'r AHNE rhag ddatblygiadau anaddas. Credir felly na ddylai datblygiadau ffermydd solar o faint sylweddol gael eu caniatáu yn yr AHNE neu gerllaw i'r AHNE lle byddent yn cael effaith sylweddol ar olygfeydd i mewn ac allan o'r ardal.

4. Sut medrir gwneud y cynllun yn gadarn ?

Credir fod angen diwygio'r polisi er mwyn cynnwys meini prawf clir a chadarn ar gyfer asesu ceisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy oddi allan i ffiniau datblygu. Dylai cynnal a gwarchod mannau/ safleoedd dynodedig statudol fel yr AHNE gael ei gynnwys fel un o'r meini prawf.

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd – Gwynedd a Môn

Datganiad Ysgrifenedig gan Gydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn

Sefydlwyd Cyd-Bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn yn 1997 er mwyn cyfrannu at y gwaith o warchod a gofalu am yr AHNE. Ymysg yr aelodau, mae Cynghorwyr Lleol, aelodau o Gyngorau Cymuned, a chynrychiolwyr o fudiadau ac asiantaethau lleol fel Cyfeillion Llŷn, yr Undebau Amaethyddol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r aelodau yn trafod materion cenedlaethol a lleol, gan gynnwys materion cynllunio, ac yn cyfrannau at y gwaith o baratoi ac adolygu Cynllun Rheoli'r AHNE.

Sylw 950

1. Pa ran o'r Cynllun yr ystyrir yn anniogel ?

Polisi ADN1 – Ynni Gwynt ar y Tir

2. Pa brofion cadernid sydd ddim yn cael eu cwrdd ?

Mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ardal ddaearyddol wedi ei dynodi yn statool o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Nodir yn Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 8, 2016) mai prif reswm dynodi ardal fel AHNE yw cynnal a gwella eu harddwch naturiol. Nodir fod yr AHNE o'r un statws â'r Parciau Cenedlaethol o ran harddwch gweledol ac y dylent gael y warchodaeth uchaf rhag datblygiadau anaddas.

Nodir y bwriad i gyfnewid y term "melin" am "tyrbin" a chroesewir y newid hwn.

Croesawir hefyd y bwriad i newid maen prawf 2 i gyfeirio at warchod Gosodiad yr AHNE.

Fodd bynnag, ni chredir fod y polisi yn rhoi gwarchodaeth ddigonol i'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy ganiatáu tyrbinau gwynt ar raddfa ddomestig (a ddiffinir fel hyd at 15 metr i frig y llafn).

Hefyd mae pryder am y categorïau a dynodi datblygiadau dan 5MW fel rhai "Bach" ac y gallai'r rhain gael eu caniatáu yn weddol agos i safleoedd dynodedig cenedlaethol.

3. Pam mae'n methu ?

Prif sail dynodi rhan o Llyn yn AHNE yn ôl yn 1957 oedd yr arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd. Mae oddeutu chwarter y penrhyn, cyfanswm o 15,500 hectar, yn yr ardal ddynodedig. Mae'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond mae hefyd yn ymestyn i mewn i'r tir i gynnwys Foel Gron a Garn Fadryn. Er mai'r tirlun a'r arfordir yw prif sail yr harddwch naturiol mae llawer o rinweddau eraill yn perthyn i'r ardal yn cynnwys y bywyd gwyllt amrywiol, olion hanesyddol, y môr a'i donnau, y diwylliant unigryw a'r iaith Gymraeg sy'n dal i ffynnu.

Mae tyrbinau gwynt yn eu hanfod yn ddatblygiadau sydd yn cael effaith amlwg ar y tirlun a golygfeydd. Maent yn ffurfiau modern ac mae'r ffaith fod y llafnau yn troi yn cynyddu eu hamlygrwydd.

Hyd yma nid oes unrhyw dyrbinau gwynt wedi eu caniatu oddi mewn yr ardal ddynodedig yn Llŷn. Mae llawer wedi nodi fod ymwelwyr yn tynnu sylw at hyn ac yn gwerthfawrogi fod yr ardal wedi ei gwarchod rhag dyrbinau gwynt. Mae rhai ceisiadau wedi eu caniatu ar gyrion yr ardal fodd bynnag – e.e Botwnnog, Abersoch, Rhoshirwaun. Yn anffodus mae'r tyrbinau hyn wedi amharu rhywfaint ar harddwch y tirlun a golygfeydd yn y manau hynny.

Credir felly na ddyliad caniatu tyrbinau gwynt yr yr AHNE ac y dylid cyfyngu tyrbinau i rai hyd at 11medr o fewn gwelededd yr AHNE.

4. Sut medrir gwneud y cynllun yn gadarn ?

Credir y dylid diwygio'r polisi i atal tyrbinau gwynt yn gyfangwbl yn yr AHNE.

Hefyd, peidio â chaniatau tyrbeini uwch na 11m o fewn gwelededd yr AHNE.

Adolygu maint y tyrbinau a gynhwysir yn y categori "Bach" fel nad ydynt o faint mor sylweddol.